
# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

**Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.**


Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Adran Gwaith
a Phensiynau

# Credyd Pensiwn



Dim ond copi yn unig yw'r daflen hon o wybodaeth a ddewiswyd o **www.gov.uk** ar 6 Ebrill 2015. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar gael ar-lein. Mae'r daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig ac ni ddylid dibynnu arno fel datganiad llawn o'r gyfraith yn y maes hwn.




## Cynnwys

| | |
|---|---|
| Beth yw Credyd Pensiwn? | 3 |
| Beth fyddwch yn ei gael | 3 |
| Cymhwyster | 4 |
| Sut i wneud cais | 7 |

Argraffwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gan ddefnyddio'r testun a gymerwyd o **www.gov.uk** ar 6 Ebrill 2015.

© Hawlfraint y Goron

ISBN 978-1-78425-501-5

**DWP24W** (Mai 2015)



**Codau QR**

Dyma godau bar sgwâr sy'n agor gwefan benodol, gan arbed i chi deipio cyfeiriadau gwe hir.

Gallwch gael ap am ddim i sganio codau QR ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar.

## Beth yw Credyd Pensiwn?

www.gov.uk/pension-credit

Mae Credyd Pensiwn yn fudd-dal sy'n berthnasol i incwm wedi'i wneud i fyny o 2 ran - Credyd Gwarantedig a Chredyd Cynilo

Mae Credyd Gwarantedig yn ychwanegu at eich incwm wythnosol os yw'n is na swm penodol.

Mae Credyd Cynilo yn daliad ychwanegol i bobl sy'n cynilo rhywfaint o arian tuag at eu hymddeoliad, ee pensiwn.

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael credyd cynilo os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill, 2016.

Nid ydych yn talu treth ar Gredyd Pensiwn.

Defnyddiwch y cyfrifiannell Credyd Pensiwn i gyfrifo faint efallai byddwch yn ei gael. Cewch ragor o wybodaeth yn **www.gov.uk/pension-credit-calculator**

## Beth fyddwch yn ei gael

www.gov.uk/pension-credit/what-youll-get

| Eich amgylchiadau | Credyd Gwarantedig pob wythnos | Credyd Cynilo pob wythnos |
|---|---|---|
| Pobl sengl | Ychwanegiad hyd at £151.20 | Hyd at £14.82 |
| Cyplau | Ychwanegiad hyd at £230.85 | Hyd at £17.43 |

**Efallai y byddwch yn cael mwy os ydych yn ofalwr, gydag anabledd difrifol neu os oes gennych gostau tai penodol.**

Defnyddiwch y cyfrifiannell Credyd Pensiwn i gyfrifo faint efallai byddwch yn ei gael. Cewch ragor o wybodaeth yn **www.gov.uk/pension-credit-calculator**

Efallai y byddwch yn gymwys i gael budd-daliadau eraill pan rydych yn cael Credyd Pensiwn - gwiriwch gyfrifiannell budd-daliadau yn **www.gov.uk/benefits-calculators**

### Sut rydych yn cael eich talu

Mae holl fudd-daliadau, pensiynau a lwfansau yn cael eu talu i mewn i gyfrif, ee cyfrif banc. Cewch ragor o wybodaeth yn **www.gov.uk/how-to-have-your-benefits-paid**

### Os bydd eich amgylchiadau'n newid

Ffoniwch y llinell gymorth os bydd eich amgylchiadau'n newid oherwydd gall hyn effeithio ar faint y byddwch yn ei gael. Er enghraifft, os yw eich incwm neu gyfalaf yn mynd i fyny neu i lawr.

### Llinell gymorth y Gwasanaeth Pensiwn

Ffôn: **0345 606 0275**

Ffôn testun: **0800 169 0133**

Dydd Llun i ddydd Gwener o 8am i 6pm

Cael gwybod am gostau galwadau ar **www.gov.uk/call-charges**

**0345**
**0845**

Gallwch ddefnyddio'r cod **0845** i alw unrhyw un o'n rhifau **0345**.
Holwch eich cwmni ffôn pa god sy'n rhatach i chi.

Mae galwadau i'n rhifau **0800** am ddim o linellau daear BT a'r rhan fwyaf o ffonau symudol. Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau ar **www.gov.uk/call-charges**

Gallwch gael cyngor wyneb-yn-wyneb neu daflenni am Gredyd Pensiwn gan eich Pwynt Gwybodaeth Gwasanaethau lleol. Mae angen i chi drefnu apwyntiad ar gyfer cyngor wyneb-yn-wyneb.

## Cymhwyster

www.gov.uk/pension-credit/eligibility

### Credyd Gwarantedig

I fod yn gymwys ar gyfer Credyd Gwarantedig:

- rhaid i chi fyw ym Mhrydain Fawr
- rhaid i chi neu'ch partner fod wedi cyrraedd oedran  cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn

I gael gwybod y dyddiad pan fyddwch yn cyrraedd yr oedran cymhwyso Credyd Pensiwn gweler y tabl isod, neu ewch i gyfrifiannell  oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar **www.gov.uk/calculate-state-pension**

| **Dyddiad cawsoch eich geni** | **Dyddiad gallech gael Credyd Pensiwn** |
|---|---|
| 6 Mai - 5 Mehefin 1952 | Nawr |
| 6 Mehefin - 5 Gorffennaf 1952 | 6 Medi, 2014 |
| 6 Gorffennaf - 5 Awst 1952 | 6 Tachwedd 2014 |
| 6 Awst - 5 Medi 1952 | 6 Ionawr  2015 |
| 6 Medi-5 Hydref 1952 | 6 Mawrth, 2015 |
| 6 Hydref - 5 Tachwedd 1952 | 6  Mai 2015 |
| 6 Tachwedd - 5 Rhagfyr 1952 | 6 Gorffennaf, 2015 |
| 6 Rhagfyr - 5 Ionawr 1953 | 6 Medi, 2015 |
| 6 Ionawr - 5 Chwefror 1953 | 6 Tachwedd 2016 |
| 6 Chwefror - 5 Mawrth 1953 | 6 Ionawr 2016 |

Mae oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn yn cynyddu yn raddol i fyny at 66 yn unol â'r cynnydd i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched i 65 a'r cynnydd pellach i 66 i ddynion a merched.

## Credyd Cynilion

I fod yn gymwys ar gyfer Credyd Cynilo ychwanegol mae'n rhaid i chi neu'ch partner fod yn 65 oed neu'n hŷn.

Rydych yn cael eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner. Nid oes rhaid i chi fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

Ni allwch gael Credyd Pensiwn os byddwch yn symud dramor yn barhaol.

## Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill, 2016

Ni fydd y rhan fwyaf o bobl yn gymwys i gael Credyd Cynilo.

Efallai y byddwch yn dal i gael Credyd Cynilion os ydych yn rhan o gwpl ac 1 ohonoch wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill, 2016.

## Gweithio allan eich incwm

Pan fyddwch yn gwneud cais mae eich incwm yn cael ei weithio allan. Mae hyn yn cynnwys:

- Pensiwn y Wladwriaeth
- pensiynau eraill
- y rhan fwyaf o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol, ee Lwfans Gofalwr
- cynilion, buddsoddiadau dros £10,000 - ar gyfer y rhain mae £1 yn cael ei gyfrif ar gyfer pob £500 neu ran o £500
- enillion

Os oes gennych hawl i bensiwn preifat neu yn y gweithle, mae'r swm byddwch yn disgwyl ei gael yn cael ei gyfrifo fel incwm o'r dyddiad roeddech yn gallu ei gael, os oeddech wedi gwneud cais amdano.

Ni fyddwch yn cael y fantais o ohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth os ydych chi neu eich partner yn derbyn Credyd Pensiwn e.e. ni fyddwch yn cronni Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad ar gyfer gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth. Wrth weithio allan os gallwch chi gael Credyd Pensiwn, mae'r incwm byddwch yn cael o'ch Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei gynnwys p'un a ydych yn gwneud cais amdano neu beidio.

Nid yw'r cyfrifiad yn cynnwys:

- Lwfans Gweini
- Bonws Nadolig
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Budd-dal Tai
- Gostyngiad Treth Cyngor

Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer Hunanasesiad (**www.gov.uk/self-assessment**), rhaid i chi ddweud wrth y Gwasanaeth Pensiwn faint o Dreth Incwm (**www.gov.uk/income-tax**) yr ydych yn disgwyl i dalu am y flwyddyn dreth gyfredol - mae hyn yn effeithio ar faint o Gredyd Pensiwn byddwch yn ei gael.

Cael cyngor wyneb-yn-wyneb neu daflenni am Gredyd Pensiwn gan eich Pwynt Gwybodaeth Gwasanaethau lleol. Mae angen i chi drefnu lle ar gyfer cyngor wyneb-yn-wyneb.

## Sut i wneud cais

www.gov.uk/pension-credit/how-to-claim

Y ffordd gyflymaf i wneud cais am Gredyd Pensiwn yw dros y ffôn.

Gall ffrind neu aelod o'r teulu ffonio ar eich rhan - rhaid i chi fod gyda hwy pan fyddant yn galw.

**Llinell hawlio Credyd Pensiwn**

Ffôn: 0800 99 1234

Ffôn testun: 0800 169 0133

Dydd Llun i ddydd Gwener o 8am i 6pm

Mae galwadau i'n rhifau **0800** am ddim o linellau daear BT a'r rhan fwyaf o ffonau symudol. Cewch wybod am gost galwadau yn **www.gov.uk/call-charges**

Gallwch ofyn am gais ar bapur drwy ffonio'r llinell gymorth neu drwy gysylltu â mudiad gwirfoddol (ee Cyngor ar Bopeth, Age UK) yn eich ardal chi.

**Beth rydych angen er mwyn gallu gwneud cais**

Byddwch angen:

- eich rhif Yswiriant Gwladol
- gwybodaeth am eich incwm, cynilion a buddsoddiadau
- manylion eich cyfrif banc

Y cynharaf y gallwch ddechrau eich cais yw 4 mis cyn i chi gyrraedd oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn.

Gallwch wneud cais unrhyw bryd ar ôl i chi gyrraedd oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn ond dim ond ei ôl ddyddio am 3 mis yn unig.

**Apelio yn erbyn penderfyniad**

Gallwch apelio i'r Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant os ydych yn anghytuno â'r penderfyniad.

Ewch i **www.gov.uk/social-security-child-support-tribunal**

Mae'n rhaid i chi fel arfer ofyn am ailystyriaeth orfodol cyn i chi apelio.

# Rydym angen eich help

Rydym yn awyddus i ddeall mwy am y bobl sy'n defnyddio ein taflenni.
A fyddech cystal ag ateb y cwestiynau isod, rhwygwch y cerdyn hwn a'i phostio i'r cyfeiriad dros y dudalen. Ni fydd angen stamp arnoch.

---

## Sut ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd?

- ☐ Fy nghyfrifiadur
- ☐ Ffôn symudol
- ☐ Cyfaill neu deulu
- ☐ Llyrfgell neu gyfrifiadur cyhoeddus
- ☐ Ni allaf ddefnyddio’r rhyngrwyd

## Os ydych yn defnyddio’r rhyngrwyd, pam y cawsoch gopi argraffedig?

________________________________________

________________________________________

## O ble y cawsoch y daflen hon?

- ☐ Y Ganolfan Gwaith neu’r Adran Gwaith a Phensiynau
- ☐ Canolfan Gyngor ar Bopeth neu ganolfan gyngor leol
- ☐ Cyfaill neu ffrind
- ☐ Arall

## Pa mor ddefnyddiol oedd y daflen wrth ateb eich cwestiynau?

- ☐ Defnyddiol iawn
- ☐ Eithaf defnyddiol
- ☐ Ddim yn ddefnyddiol iawn
- ☐ Gwbl anefnyddiol

## Ar ôl darllen y daflen, beth ydych chi'n bwriadu gwneud nesaf?

________________________________________

________________________________________

## Amdanoch chi

Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod ychydig fwy amdanoch chi.

Ydych chi’n:
- ☐ Hawlio budd-dal
- ☐ Gweithio
- ☐ Cael Pensiwn y Wladwriaeth

Ydych chi’n:
- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw

Eich oedran: ☐

---

Anfonwch y cerdyn hwn **yn unig**.
Peidiwch â chynnwys unrhyw ddogfennau eraill.

DWP24W

Business Reply Plus
Licence Number
RTLJ-LTBE-THBS

2

Department for Work & Pensions
Quarry House
Quarry Hill
LEEDS
LS2 7UA